**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

| |
|---|
| **Dyddiad:** Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf |
| **Amser:** 11am |
| **Lleoliad:** Ystafell Pwyllgor 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Teitl y papur:** Strategaeth Adnoddau Dynol NHS Cymru, *Darparu ar gyfer Cleifion*

**Diben**

1. Gwahoddir y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i drafod Strategaeth Adnoddau Dynol NHS Cymru, *Darparu ar gyfer Cleifion*, a drafodwyd yn y cyfarfod llawn ar 13 Mehefin ac a lansiwyd gan yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 23 Mehefin.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Mae Strategaeth Adnoddau Dynol gyntaf NHS Cymru, a luniwyd yn dilyn trafodaethau eang o fewn y gwasanaeth iechyd a thu hwnt, yn nodi'r materion rheoli staff y mae gofyn i NHS Cymru ymdrin â hwy. Fe'i seilir ar gysyniad o bartneriaeth.

**Amseru**

3. Arferol.

**Cefndir**

4. Mae *Darparu ar gyfer Cleifion* yn nodi'r materion rheoli adnoddau dynol allweddol sy'n wynebu NHS Cymru. Mae'n cydnabod pwysigrwydd partneriaeth wrth gyflawni'r amcanion strategol. Meysydd blaenoriaeth y strategaeth yw cydraddoldeb; cynllunio gweithlu; addysg, hyfforddiant a datblygiad; a materion cyflogaeth, gan gynnwys recriwtio a chadw, cysylltiadau ag aelodau staff a gweithio mewn partneriaeth, cynllunio swyddi, tâl, iechyd yn y gweithle, aeddfedrwydd gyrfa ac ymddeol. Mae'r strategaeth yn nodi amcanion - a fydd yn cael eu hadolygu - ar gyfer blwyddyn gyntaf oes y strategaeth ac mae'n nodi pwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

5. Bydd aelodau'r pwyllgor am nodi bod *Darparu ar gyfer Cleifion* yn cynnwys adran ar faterion cydraddoldeb (paragraffau 4.12.10 i 4.12.15). Yn y strategaeth, ceir cydnabyddiaeth i bwysigrwydd cyfle cyfartal a thriniaeth deg i holl staff NHS Cymru. Mae'n annog sicrhau mwy o gyfleoedd i grwpiau bregus neu'r grwpiau hynny a fu dan anfantais yn y gorffennol. Trwy sicrhau na cheir unrhyw wahaniaethu, aflonyddu, bwlian na rhagfarn yn y gweithle, gall NHS Cymru gynorthwyo'i staff i gyflawni eu potensial.

6. Nod Amcan 6 yw cynyddu dealltwriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol yn NHS Cymru. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ddiwylliannol, hyfforddiant i ddelio â materion cydraddoldeb, mesurau i fonitro cydraddoldeb, amrywiaeth, bwlian ac aflonyddu a datblygu rhaglen i fonitro recriwtio, dethol a datblygiad gyrfaol. Y dyddiad targed a bennir yn *Darparu ar gyfer Cleifion* i gyflawni hyn yw Ebrill 2001.

7. Ymdrinnir â materion tâl ym mharagraffau 4.12.19 i 4.12.21. Mae'r strategaeth yn cydnabod ei bod yn ofynnol i dâl yn yr NHS fod yn seiliedig ar effeithlonrwydd, tegwch, hyblygrwydd a phartneriaeth. Mae'r angen i sicrhau cydraddoldeb tâl ar gyfer yr un gwaith wedi'i dderbyn yn *Agenda ar gyfer Newid*.

8. Mae Amcan 4 yn cynnig y dylid cynnal adolygiad o arferion cyflogi ar draws NHS Cymru erbyn mis Chwefror 2001. Mae paragraff 4.12.4 yn nodi y bydd yr adolygiad yn chwilio am ddulliau arloesol o ddelio â pholisïau cyfeillgar i'r aelodau staff, gan gynnwys cydnabod cyfrifoldebau cynhalwyr. Wrth geisio datrys problemau prinder staff a chydnabod y ffaith bod angen darparu gofal iechyd 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn, mae'r strategaeth yn cydnabod bod gofyn cydbwyso hynny ag anghenion staff a'u teuluoedd (paragraffau 4.12.16 i 4.12.18).

9. Bydd holl staff NHS Cymru yn derbyn crynodeb o'r amcanion a'r nodau strategol. Caiff staff gyfle i gyfrannu tuag at gyflawni'r rhain drwy weithio mewn partneriaeth ar lefel leol. Mae'n bosibl hefyd y ceir cynlluniau peilot lleol i brofi rhai agweddau ar y strategaeth. Hefyd, bydd mesurau perfformiad yn cael eu datblygu i fonitro ei llwyddiant.

**Cydymffurfio**

10. Nid oes unrhyw broblemau cydymffurfio. Mae gan y Cynulliad bwerau dirprwyedig llawn i symud ymlaen â'r strategaeth.

**Cyswllt**

11. HRD5.